

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa St Andrews, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa St Andrews, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 28 Ionawr 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 10 holiadur gan gleifion. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion yn gadarnhaol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod y clinigydd wedi esbonio pethau'n dda iddynt, eu bod yn teimlo ei fod wedi gwrando arnynt, a'u bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.' Fodd bynnag, cododd cleifion faterion yn ymwneud â phreifatrwydd yn y dderbynfa a'r gallu i gael apwyntiadau arferol.

Roedd y staff yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth gofalgarn a phroffesiynol i gleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael yn y practis ac ar y wefan i helpu cleifion i wella eu hiechyd a'u llesiant.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod mynediad da i'r gwasanaeth. Roedd y system apwyntiadau yn sicrhau bod modd cynnal asesiadau clinigol a blaenoriaethu apwyntiadau yn effeithiol. Roedd dogfennau a llythyrau gofal eilaidd a oedd yn cyrraedd yn cael eu trin yn briodol ac roedd gwaith yn cael ei neilltuo mewn modd amserol.

Roedd gwasanaeth hebryngwyr ar gael ac roedd y polisiâu perthnasol ar waith, ond nid oedd unrhyw hysbysiadau wedi'u harddangos i roi gwybod i gleifion am y gwasanaeth hwn. Nid oedd cofnod un claf a welsom yn cynnwys cofnod bod hebryngwr wedi'i gynnig, er bod archwiliad personol wedi'i gynnal.

Roedd ramp ar gael er mwyn mynd i mewn i'r adeilad a oedd yn galluogi cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn i ddefnyddio'r cyfleusterau yn hawdd. Roedd yr ystafelloedd aros i gleifion yn lân ac yn fawr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cleifion sy'n siarad wrth y dderbynfa yn gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal eu preifatrwydd a'u cyfrinachedd
- Datblygu dogfen llwybr llywio gofal gyfredol
- Rhoi'r Cynnig Rhagweithiol i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ar waith
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ymgysylltu'n dda â'r clwstwr lleol i ddarparu mentrau gofal iechyd

- Darparu gwasanaeth cyfieithu priodol i gleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Er bod yr ystafelloedd trin clinigol yn fawr ac yn lân, ar y cyfan, roedd angen ailaddurno'r adeilad i greu amgylchedd mwy croesawgar. Gwelsom goridor llaith i fyny'r grisiau o ganlyniad i ollyngiad yn y to a oedd ond wedi'i atgyweirio'n rhannol, ac roedd carpedi nad oeddent yn ffitio'n iawn yn creu peryglon baglu posibl i'r staff.

Ar y cyfan, ystyriwyd bod y trefniadau atal a rheoli heintiau yn dderbyniol, er bod angen gwella rhai trefniadau gan gynnwys gosod biniau newydd yn lle'r rhai a oedd wedi'u difrodi a chadeiriau newydd yn lle'r cadeiriau â'r gorchuddion ffabrig wedi'u difrodi. Gwelsom fod un bin offer miniog heb ei gloi ac o fewn cyrraedd hawdd i gleifion.

Roedd trefniant priodol ar gyfer ymdrin â phresgripsiynau rheolaidd a'u monitro. Roedd brechlynnau wedi'u storio'n addas ac roedd polisi cadwyn oer cyfredol ar waith, a oedd yn golygu bod modd rheoli achos diweddar o ddiffyg cydymffurfio yn effeithiol.

Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr ar waith yn y practis a oedd yn gyson â chanllawiau Diogelu Cymru. Roedd rhybuddion priodol yn y cofnodion meddygol yn nodi plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn wynebu risg. Fodd bynnag, roedd y cofnodion hyfforddi yn awgrymu nad oedd sawl aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefelau priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod yn glir ac yn gyfredol ac yn cynnwys nodiadau o safon uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r defnydd o godau clinigol Read, ond disgwylir y bydd hyn yn gwella pan fydd y practis yn newid i system cofnodion clinigol EMIS.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Atgyweirio'r to a gosod carpedi newydd yn y swyddfeydd
- Rhoi system briodol ar waith ar gyfer rheoli padiau presgripsiwn a chofnodi presgripsiynau ar gyfer ymweliadau cartref
- Gosod arwyddion i ddangos lleoliad y cyfarpar brys
- Gwirio'r cyfarpar brys yn wythnosol yn hytrach nag yn fisol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd siartiau llif anafiadau offer miniog wedi'u harddangos ym mhob meddygfa
- Roedd yr oergell meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n dda ac roedd tystiolaeth bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd
- Roedd cofnodion y cleifion yn glir ac yn cynnwys cynlluniau gofal hawdd eu dilyn a thystiolaeth o rwydi diogelwch.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Meddygfa St Andrews yn bractis hyfforddi gydag arweinyddiaeth glir a diwylliant drws agored. Er bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal, roedd hynny bellach yn digwydd ar sail ad hoc. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy negeseuon e-bost wedi'u targedu, ac roedd polisiau ar gael yn ddigidol ac ar ffurf copi caled. Fodd bynnag, nid oedd sawl un ohonynt yn cynnwys digon o fanylion, dyddiadau adolygu na phrosesau rheoli fersiynau.

Roedd y practis yn dilyn proses recriwtio strwythuredig ac yn darparu hyfforddiant sefydlu wedi'i ddogfennu'n llawn i aelodau newydd o staff. Er bod y practis yn defnyddio staff locwm rheolaidd i sicrhau parhad, nid oedd pecyn ar gyfer staff locwm na phroses sefydlu safonol ar gyfer staff dros dro.

Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei monitro. Fodd bynnag, gwelsom lawer o fylchau mewn hyfforddiant gorfodol ar draws tîm cyfan y practis. Roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal ond nid oeddent yn cael eu dogfennu'n ffurfiol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella y GIG i raddau helaeth, er bod angen diwygio'r amserlenni. Gwelsom fod y practis yn ymchwilio'n llawn i gwynion ac yn eu dogfennu.

Roedd gan y practis gydberthynas dda â thîm amlddisgyblaethol y bwrdd iechyd lleol. Roedd hefyd wedi meithrin cysylltiadau agos o fewn y clwstwr meddygon teulu lleol i gefnogi gwasanaethau integredig yn ardal y Rhondda.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom nodi nifer o feysydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw drwy ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd y materion yn cynnwys y canlynol:

- Roedd lefelau cydymffurfiaeth gwael â hyfforddiant gorfodol ar draws pob un o'r grwpiau staff
- Nid oedd system effeithiol i oruchwyllo hyfforddiant gorfodol mewn ffordd glir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod polisiau'n cael eu cwblhau a'u bod yn cynnwys prosesau rheoli fersiynau priodol
- Rhoi proses ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol a'u dogfennu
- Arddangos y weithdrefn gwyno a phroses Gweithio i Wella y GIG yn yr ardaloedd i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd aelodau'r uwch-dim, gan gynnwys y rheolwyr a'r meddygon teulu partner, yn hawdd mynd atynt
- Roedd cwynion yn cael eu dogfennu'n dda
- Roedd tystiolaeth o'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i adolygiadau o gwynion

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, a'r brif broblem oedd y gallu i gael apwyntiadau arferol a diffyg preifatrwydd yn y dderbynfa. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Yr unig sylw a gawsom am y gwasanaeth a sut y gallai wella oedd y canlynol:

“Fel claf nad yw prin yn mynd at y meddyg teulu, roedd staff y dderbynfa yn wych am gynghori a chyfeirio.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig berthnasol ar gael i gleifion yn ardaloedd aros y practis. Dywedodd y staff wrthym y byddai gwybodaeth benodol ac wedi'i thargedu yn cael ei rhoi yn ystod ymgynghoriad â'r meddygon teulu a'r clinigwyr.

Gwelsom rai posteri gofal iechyd yn Gymraeg ac yn Saesneg a gwelsom fod sgriniau arddangos gwybodaeth yn yr ardal aros, er nad oeddent yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwnaethom nodi bod llawer o'r hysbysiadau wedi'u llungopïo mewn du a gwyn ac felly, nad oeddent yn ddeniadol nac yn hawdd eu gweld. Gwelsom hefyd fod gwefan y practis yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol, er bod angen diweddarau rhai rhannau ohoni. Dywedwyd wrthym nad oedd yr aelod o staff a oedd yn gyfrifol am hynny yn gweithio yn y practis mwyach.

Dylai'r practis adolygu'r canlynol:

- Sut y caiff gwybodaeth gofal iechyd ei darparu i gleifion gyda'r nod o'i gwneud yn fwy gweladwy a hygyrch
- Ei gwefan er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd y practis yn darparu mynediad at ffisiotherapi, cwyselwyr cyffuriau ac alcohol, ymarferwyr iechyd meddwl MIND a rhaglen atal diabetes Cymru Gyfan. Roedd cynlluniau i roi mentrau ychwanegol wedi'u hariannu gan y clwstwr ar waith,

fel cydgysylltwyr llesiant, gwasanaeth cynghori cardiofasgwlaidd a rhaglen 'PIPYN', sy'n anelu at gefnogi plant a theuluoedd i wneud dewisiadau bwyta iachach.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn adolygu achosion pan nad oedd cleifion yn mynychu apwyntiadau, ac yn cynnal trafodaethau priodol ag ymwelwyr iechyd ar gyfer plant na ddaethpwyd â nhw i apwyntiadau. Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau amgen y tu allan i oriau'r clinig ac yn ffonio cleifion y diwrnod cyn eu hapwyntiadau i'w hatgoffa amdanynt.

Er y dywedwyd wrthym fod 78 y cant o'r cleifion yn y grŵp dros 65 oed wedi manteisio ar raglen frechu'r gaeaf, roedd llawer o'r cleifion yn y grwpiau oedran eraill wedi gwrthod y cynnig. Er bod y practis wedi cymryd camau rhagweithiol i gynnig brechiadau rhag feirysau syncytiol anadlol (RSV), nododd nad oedd llawer o gleifion wedi manteisio ar y cynnig hwn ac awgrymodd eu bod wedi blino ar frechlynnau ar ôl pandemig COVID-19.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Dywedwyd wrthym fod rhai galwadau ffôn yn cael eu cymryd yn y swyddfa weinyddol i fyny'r grisiau i ddiogelu cyfrinachedd, ond bod galwadau hefyd yn cael eu hateb wrth ddesg y dderbynfa lle nad oedd llawer o breifatrwydd. Ni welsom unrhyw arwyddion yn y dderbynfa i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw drefniadau ychwanegol o ran preifatrwydd pe bai angen. Roedd pedwar o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn na allent siarad ag aelod o staff y dderbynfa heb i bobl eraill yn yr ardal aros i gleifion eu clywed.

Dylai'r practis sicrhau bod cleifion sy'n siarad wrth ddesg y dderbynfa yn gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal eu preifatrwydd a'u cyfrinachedd.

Roedd drysau'r ystafelloedd trin ar gau ac roedd llenni preifatrwydd ar gael i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd polisi hebryngwyr ar waith ar gyfer archwiliadau personol, ond nid oedd unrhyw hysbysiadau wedi'u harddangos yn hysbysebu'r gwasanaeth hwn i gleifion. Yn y cofnod a welsom ar gyfer un claf a oedd wedi cael archwiliad personol, nid oedd y cynnig o hebryngwr nac ymateb y claf wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Y caiff y cynnig o hebryngwyr ei arddangos yn yr ystafelloedd clinigol fel bod cleifion yn ymwybodol o'r gwasanaeth
- Y caiff y cynnig o hebryngwr ac ymateb y claf eu cofnodi yn nodiadau cleifion, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Yn yr un modd, dywedodd y rhan fwyaf fod y meddyg teulu wedi egluro pethau'n dda, eu bod yn teimlo ei fod wedi gwrando arnynt, a'u bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y feddygfa ar agor rhwng 8:00am a 6:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac roedd gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau. Roedd y practis yn rhoi gwybod i gleifion am yr opsiynau ar gyfer trefnu apwyntiadau drwy wefan y practis.

Gan amlaf, byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau drwy ffonio'r practis o 08:00am. Roedd ymgynghoriadau dros y ffôn ac apwyntiadau brysbennu wedi'u harwain gan feddygon teulu ar gael hefyd. Roedd cleifion yn cael cynnig asesiadau wyneb yn wyneb ar yr un diwrnod yn seiliedig ar natur frys y sefyllfa, barn glinigol a dewis y claf. Ar gyfer rhai cyflyrau, gellid anfon ffotograffau drwy e-bost i'r practis at ddibenion brysbennu o bell. Gwnaethom drafod y dylai'r practis ystyried cynnig system electronig ar gyfer trefnu apwyntiadau ymlaen llaw er mwyn atgyfnerthu'r llwyth gwaith a gwella mynediad i gleifion.

Roedd yn ymddangos bod y staff yn gyfarwydd â'r llwybrau llywio gofal a bod swyddogion llywio anghlinigol yn gallu gofyn am arweiniad gan gydweithwyr clinigol ar lefel uwch pe bai angen. Fodd bynnag, ni allai'r practis ddarparu llwybr llywio gofal wedi'i ddogfennu i ni a oedd yn rhoi dull cyson i'r staff ei ddilyn.

Dylai'r practis sicrhau bod llwybr llywio gofal wedi'i ddogfennu ar gael i'r staff.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd holiadur AGIC eu bod wedi gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys. Cadarnhaodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon ar y math o apwyntiad a gynigiwyd iddynt. Fodd bynnag, roedd tri ymatebydd yn anghytuno eu bod wedi gallu cael apwyntiadau arferol pan oedd eu hangen arnynt.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn rhoi gwybod i gleifion am wasanaethau ac unrhyw newidiadau yn bennaf drwy wefan y practis a hysbysiadau wedi'u harddangos yn yr ardaloedd aros i gleifion. Gwelsom nad oedd unrhyw daflenni gwybodaeth am y practis ar gael i gleifion heb fynediad digidol. Dywedwyd wrthym fod hyn hefyd wedi'i nodi yn ystod adolygiad blynyddol gan y bwrdd iechyd.

Dylai fod gan y practis daflen wybodaeth ysgrifenedig i gleifion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth hefyd ar gael i gleifion nad oes ganddynt fynediad digidol.

Cawsom gopi o bolisi cydsynio'r practis. Roedd hyn yn sicrhau bod pob claf yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod y cleifion hynny heb alluedd yn cael eu diogelu'n briodol.

Gwelsom fod dogfennau a llythyrau gofal eilaidd a oedd yn cyrraedd yn cael eu trin yn effeithiol a'u cofnodi, a bod gwaith yn cael ei neilltuo i'r meddyg a oedd yn gweithredu mewn modd amserol. Fodd bynnag, gwelsom fod y rhain yn cael eu hychwanegu at gofnodion cleifion heb eu golygu, felly roeddent yn cynnwys rhywfaint o jargon o hyd nad oedd bob amser yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd tystiolaeth dda o drafodaethau manwl â chleifion am eu cyflwr a'u hopsiynau o ran rheoli gofal. Dywedwyd wrthym am waith achlysurol ar benwythnosau i ddal i fyny ag unrhyw ôl-groniad o lythyrau, a gwnaethom drafod yr angen i fonitro hyn i'w atal rhag dod yn fwy cyffredin.

Gwelsom rywfaint o wybodaeth ac arwyddion dwyieithog yn y practis. Dywedwyd wrthym fod un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu priodol ar gael i'r staff er mwyn helpu cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Gwelsom nad oedd y Cynnig Rhagweithiol i ddarparu triniaeth yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, ac nad oedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol ohono.

Rhaid i'r practis sicrhau y rhoddir gwybod i bob aelod o'r staff am y 'Cynnig Rhagweithiol' i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y caiff hyn ei hyrwyddo i gleifion.

Roedd bron pob un o'r cleifion a atebodd holiadur AGIC o'r farn bod y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda iddynt ac wedi ateb eu cwestiynau i gyd ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd mynediad da i'r practis i gleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwnaethom nodi bod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a bod mynediad drwy ramp i'r practis o'r stryd. Roedd yr ardaloedd aros yn fawr, ac roedd y coridorau a'r

drysau yn ymddangos yn ddigon llydan i gadeiriau olwyn. Roedd toiled hygyrch ar gael ond nid oedd yn cynnwys cortyn tynnu mewn argyfwng.

Dylai'r practis osod cortyn tynnu mewn argyfwng fel bod cleifion yn gallu galw am gymorth os oes angen.

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Fodd bynnag, roedd yn cyd-fynd â safonau'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr yn hytrach na'r safonau i Gymru, ac nid oedd yn cynnwys proses rheoli fersiynau. Gwelsom hefyd nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar y pwnc hwn, ond dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n trefnu hyn drwy'r bwrdd iechyd lleol. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Rhaid i'r practis adolygu ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r safonau i Gymru ac yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Dywedwyd wrthym fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd sensitif a chadarnhawyd y byddai enwau a rhagenwau dewisol yn cael eu defnyddio bob amser. Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaeth estynedig ar gyfer dysfforia rhywedd mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Rhywedd Cymru.

Roedd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch a gwnaethant ddweud nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr ystafelloedd trin clinigol yn fawr, yn lân i bob golwg, ac wedi'u goleuo'n dda, ond roeddem o'r farn bod angen ailaddurno'r adeilad er mwyn gwneud y practis yn fwy croesawgar i gleifion ac i'r staff. Dangoswyd un o'r coridorau i fyny'r grisiau i ni, a oedd yn llaith ac yn cynnwys arogl llwydni cryf o ganlyniad i ollyngiad yn y to a oedd ond wedi'i atgyweirio'n rhannol gan y landlord. Gwelsom hefyd nad oedd y carpedi yn y swyddfeydd wedi'u gosod yn iawn, gyda rhannau wedi codi ac ymylon wedi'u tapio, a oedd yn creu peryglon baglu posibl i'r staff.

Rhaid i'r practis drafod â pherchennog yr adeilad yr angen i atgyweirio'r to a'r carpedi o fewn cyfnod rhesymol o amser er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y staff sy'n defnyddio'r ardaloedd hyn.

Cawsom gopi o gynllun parhad busnes y practis, a oedd ar ffurf ddrafft ac wrthi'n cael ei adolygu. Roedd angen cwblhau'r cynllun hwn er mwyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau a manylion cyswllt mewn argyfwng perthnasol ar gael pe bai sefyllfa eithafol yn codi. Fodd bynnag, gwelsom ei fod yn cynnwys cyfeiriad at y Comisiwn Ansawdd Gofal ac nad oedd yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.

Dylai'r practis gwblhau ei gynllun parhad busnes er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y practis ac yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.

Dywedwyd wrthym nad oedd system cloch alw mewn argyfwng ar gael ar hyn o bryd am fod y practis yn aros i feddalwedd glinigol EMIS gael ei gosod yn fuan, a fydd yn cynnwys botwm galw mewn argyfwng.

Dangosodd trafodaethau ag uwch-aelodau o'r staff fod y practis yn ymdrin â rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn briodol a bod unrhyw rybuddion am feddyginiaethau yn cael eu hanfon at y tîm presgripsiynu er mwyn gallu gweithredu arnynt. Roedd gwersi a ddysgwyd o ddadansoddi digwyddiadau o bwys yn cael eu rhannu â thîm ehangach y practis drwy gyfarfodydd tîm.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Ar y cyfan, ystyriwyd bod y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond roedd angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau angenrheidiol o ran atal a rheoli heintiau i gynnal diogelwch y staff a chleifion.

Roedd polisiau priodol a chyfredol ar atal a rheoli heintiau a feirysau a gludir yn y gwaed ar waith. Gwelsom fod posteri ynghylch anafiadau a achosir gan nodwydd ar gael yn yr ystafelloedd trin clinigol i gynghori'r staff ar y camau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog. Fodd bynnag, mewn un feddygfa, gwelsom fin offer miniog heb ei gloi ar gornel y ddesg wrth ymyl sedd y claf ac o fewn cyrraedd hawdd i blant.

Rhaid i'r practissicrhau y caiff biniau offer miniog eu storio'n ddiogel neu eu lleoli'n briodol, fel na all cleifion na phlant gael gafael arnynt.

Yn ystod ein taith o gwmpas y practis, gwelsom fod sebon ar gael yn nhoiledau'r cleifion a'r staff a bod posteri golchi dwylo i'w gweld yn yr ardaloedd trin a'r toiledau. Fodd bynnag, gwelsom fod papur toiled a thywelion papur wedi'u gadael ar y sestonau yn hytrach nag yn y dosbarthwyr a oedd wedi'u gosod, a oedd yn golygu y gallent gael eu halogi. Gwelsom hefyd fod hylifau glanhau y gellid cael gafael arnynt yn hawdd wrth ymyl pob toiled, a allai greu perygl i gleifion ag anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, er bod caeadau atal plant arnynt.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Dylai'r practis sicrhau bod papur toiled a thywelion papur yn cael eu rhoi yn y dosbarthwyr priodol i'w hatal rhag cael eu halogi.

Gwelsom fod contract glanhau ar waith a bod amserlenni glanhau ar gael. Cafodd archwiliad atal a rheoli heintiau ei gwblhau ddiwethaf ym mis Tachwedd 2025. Roedd yn adlewyrchu cyflwr y practis ar y pryd ac yn cynnwys meysydd i'w gwella, ond nid oedd y practis wedi mynd i'r afael â nhw eto. Roedd y materion a nodwyd gennym yn cynnwys biniau wedi torri ac arwynebau anniben yn y meddygfeydd. Er bod gorchuddion hawdd eu sychu ar rai o'r cadeiriau yn y meddygfeydd, roedd rhai eraill wedi'u gorchuddio â ffabrig na ellir ei sychu. Roedd dyddiad 2017 wedi'i nodi ar un o'r llenni preifatrwydd a welsom.

Dylai'r practis gymryd camau i sicrhau'r canlynol:

- Y caiff y biniau sydd wedi'u difrodi yn y meddygfeydd eu hatgyweirio neu y caiff biniau newydd eu gosod yn eu lle, yn ddelfrydol â systemau y gellir eu gweithredu â throed
- Y caiff unrhyw annibendod ei symud oddi ar yr arwynebau yn y meddygfeydd
- Y caiff y llenni preifatrwydd eu newid neu eu golchi ar adegau priodol
- Yr ymdrinnir â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r archwiliad.

Dyweddod pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiynau ar atal a rheoli heintiau yn holiadur AGIC fod y practis yn lân neu'n lân iawn. Dywedodd y rhan fwyaf wrthym fod yr hylif diheintio dwylo ar gael iddynt yn y practis bob amser a gwnaethant gytuno bod y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl rhoi gofal. Dim ond un ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi cael triniaeth fewnwthiol a chadarnhaodd fod y cyfarpar a ddefnyddiwyd mewn pecyn unigol ac yn ymddangos wedi'i ddiheintio, a bod y staff wedi gwisgo menig yn ystod y driniaeth.

Rheoli Meddyginiaethau

Disgrifiwyd y broses ar gyfer presgripsiynau rheolaidd a nodwyd bod trefniadau priodol ar gyfer rheoli ceisiadau a oedd yn cynnwys clerics presgripsiynu'r practis, meddygon teulu a fferylllydd. Roedd gor-ddefnydd yn cael ei fonitro'n weithredol a'i drafod gyda'r meddyg teulu.

Roedd gan y practis bolisi presgripsiynu ar waith, a oedd yn cyfeirio at gofrestr padiau presgripsiwn a fyddai'n darparu llwybr archwilio, gan gynnwys pe bai meddyg yn gadael y practis. Fodd bynnag, nid oedd y polisi hwn wedi'i roi ar waith ar adeg yr arolygiad. Gwelsom hefyd nad oedd rheolaethau ar waith ar gyfer storio a chofnodi presgripsiynau â llaw ar gyfer ymweliadau cartref.

Rhaid i'r practis roi systemau priodol ar waith i'w alluogi i reoli padiau presgripsiwn a storio a chofnodi presgripsiynau ar gyfer ymweliadau cartref yn effeithiol, a'u cynnal.

Roedd brechlynnau'n cael eu storio mewn oergelloedd brechlynnau pwrpasol ac roedd gwiriadau cynnal a chadw blynyddol yn cael eu cynnal arnynt. Roedd polisi cadwyn oer cyfredol addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn yr oergelloedd yn cael eu storio'n ddiogel, a gwelsom dystiolaeth bod achos diweddar o dorri'r gadwyn oer wedi cael ei reoli'n effeithiol. Cawsom dystiolaeth fod gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd.

Roedd cyffuriau nad ydynt yn frechlynnau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu gwirio'n briodol. Gwnaethom archwilio'r rhain a gwelsom eu bod yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn mynd â chyffuriau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio i'r fferyllfa leol a'u bod yn cael eu dinistrio.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gweithio'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o waith calibradu ac roedd contractau priodol ar waith gyda gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr perthnasol.

Roedd cyfarpar brys ar gael, gan gynnwys ocsigen a diffibriliwr. Dywedwyd wrthym fod nyrsys y practis yn cymryd eu tro i wirio'r cyfarpar brys yn fisol, yn hytrach nag yn wythnosol. Gwelsom fod y silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu a bod padiau oedolion a phlant cyfredol ar gael ar gyfer y diffibriliwr a bod dyddiadau cyfredol arnynt. Gwelsom fod y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi, a allai ei gwneud hi'n anodd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Er bod arwyddion i ddangos ble roedd y silindrau ocsigen yn cael eu cadw, nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos ble roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cadw.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Y caiff y cyfarpar brys ei wirio'n wythnosol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio.**
- **Y caiff arwyddion priodol eu gosod i ddangos ble mae'r cyfarpar brys yn cael ei gadw**
- **Bod y staff bob amser yn gallu cael gafael yn hawdd ar y cyffuriau brys mewn argyfwng**

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu a oedd ar waith yn y practis a gwelsom fod polisi ar waith a oedd yn cynnwys oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ar ffurf copi caled ac ar yriant a rennir y practis. Gwelsom fod arweinydd diogelu enwebedig wedi'i gofnodi yn y polisi a gwnaethom gadarnhau bod y staff yn gwybod pwy oedd yr arweinydd.

Roedd proses ar waith i sicrhau bod y staff yn gallu adnabod cofnodion meddygol plant ac oedolion agored i niwed â statws diogelu, a hynny drwy farciwr rhybudd yng nghofnodion y claf.

Wrth ystyried hyfforddiant y staff, er y dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu yr wythnos flaenorol, ni welsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ar y lefelau gofynnol. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod gan y practis dîm ymrwymedig a oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd systemau priodol ar waith ar gyfer rhoi

gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys adolygiadau Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys a'r broses Dyletswydd Gonestrwydd.

Roedd atgyfeiriadau cleifion at ofal eilaidd yn cael eu rheoli'n briodol drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru. Roedd atgyfeiriadau yn cael eu categorio'n briodol fel rhai arferol, rhai brys a rhai brys lle yr amheuir achos o ganser. Er bod data gweithgarwch y meddygon teulu yn cael eu cyflwyno, dywedwyd wrthym nad oeddent yn cael eu dadansoddi er mwyn cymharu cyfraddau atgyfeirio â chyfraddau practisau eraill yn yr ardal.

Dylai'r practis ystyried adolygu cyfraddau atgyfeirio er mwyn helpu i nodi themâu a thueddiadau allweddol.

Roedd gwasanaeth ateb ffôn y practis yn cyfeirio galwyr â chyflyrau brys at eu Hadran Achosion Brys agosaf, ac roedd arwyddion yn yr ystafelloedd aros yn cyfeirio cleifion at opsiynau gofal iechyd amgen lle bo hynny'n briodol.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer asesu ac atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at nyrs cymorth iechyd meddwl a phroses hunangyfeirio at wasanaethau iechyd a llesiant. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion a fyddai'n cysylltu â'r practis mewn argyfwng yn cael eu cyfeirio at y meddyg ar ddyletswydd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol deg claf. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol a'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod cofnodion y cleifion yn glir ac yn cynnwys nodiadau o safon uchel a oedd yn cynnwys cynlluniau gofal hawdd eu dilyn a thystiolaeth o rwydi diogelwch, a oedd yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd yr holl gofnodion yn ymddangos yn gyfredol, yn gyflawn ac yn hawdd eu deall pe bai angen i glinigwyr eraill fwrw golwg drostynt. Lle y bo'n berthnasol, gwelsom dystiolaeth o systemau priodol ar gyfer monitro a rheoli cleifion â chlefydau cronig. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r defnydd o godau clinigol Read, ond disgwylir y bydd hyn yn gwella ar ôl newid i system cofnodion clinigol EMIS yn fuan.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd Meddygfa St Andrews yn cael ei gweithredu gan dri meddyg teulu partner ac mae'n aelod gweithgar o Glwstwr Rhondda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Mae'r practis yn bractis hyfforddi sy'n cefnogi myfyrwyr meddygol a fferyllol.

Roedd yn amlwg bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau a bod llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis, gyda'r uwch-bartner yn gyfrifol am y broses oruchwylio glinigol. Cadarnhaodd y rheolwyr a'r staff fod polisi drws agored yn y practis a bod y partneriaid ar gael i bawb ac yn hawdd mynd atynt. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio clinigol ffurfiol.

Dylai'r practis fabwysiadu proses ffurfiol ar gyfer cynnal sesiynau goruchwylio clinigol a dangos tystiolaeth addas o'r broses honno.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol, ond roedd y rhain wedi dod yn gyfarfodydd ad hoc eu natur, a oedd yn cael eu cynnal pan oedd problemau neu ddigwyddiadau'n codi. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnig cyfle i ddysgu ar y cyd o drafodaethau am ddigwyddiadau o bwys neu ddiweddariadau i ganllawiau clinigol. Dywedodd y rheolwyr fod cynlluniau ar y gweill i'w cynnal yn fwy rheolaidd eto. Gwnaethom drafod rhoi rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd ar waith i helpu i gyflawni'r nod hwn.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth, fel polisiâu a newidiadau gweithdrefnol neu hysbysiadau diogelwch, yn cael ei rhannu â staff drwy negeseuon e-bost wedi'u targedu er mwyn darparu llwybr archwilio a sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cyrraedd y bobl berthnasol.

Roedd gan y practis amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau a oedd yn cael eu cadw ar system TG y practis ac ar ffurf copi caled yn ystafell y staff. Dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan reolwr y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd nifer o'r polisiâu yn cynnwys unrhyw broses rheoli fersiynau na dyddiadau adolygu. Yn benodol, gwelsom nad oedd y polisiâu Trosglwyddo Gwybodaeth, Cydsynio a Recriwtio yn ddigon manwl a bod y polisi Ymweliadau Cartref yn anghyflawn.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu a'r person sy'n gyfrifol am adolygu'r weithdrefn
- Bod pob polisi wedi'i gwblhau ac yn cynnwys digon o fanylion i gadarnhau egwyddorion, cwmpas ac atebolrwydd y polisi hwnnw
- Bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall polisiau perthnasol y practis i sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r practis
- Ei fod yn rhoi tystiolaeth i AGIC pan fydd wedi gwneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn wynebu llawer o bwysau gweithredol, gan gynnwys diffyg dirprwy reolwr practis ac angen cynyddol am drefniadau llywodraethu cryfach yn unol â dulliau a fabwysiadwyd gan bractisau eraill. Roedd angen ailaddurno, gosod carpedi newydd ac atgyweirio to'r adeilad, ac roedd hyn yn rhoi straen ychwanegol ar adnoddau. Mae galw cynyddol gan gleifion hefyd wedi arwain at yr angen am gymorth gweinyddol ychwanegol wrth aros i'r system bresgripsiynu electronig gael ei chyflwyno.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn y practis. Roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion. Roedd y staff yn teimlo bod y llwyth gwaith yn cael ei ddyrannu'n briodol ac o fewn eu maes ymarfer. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff blynyddol a swyddi gwag yn cynnig cyfleoedd i'r tîm arwain adolygu'r cymysgedd sgiliau yn y practis.

Roedd polisi recriwtio addas ar waith yn y practis a oedd yn cynnwys rhestr wirio cyn cyflogi. Roedd yn ofynnol i staff newydd eu penodi ymgymryd â rhaglen sefydlu gynhwysfawr a oedd yn cael ei dogfennu a'i chymeradwyo gan yr aelod o staff a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y rhaglen hon yn cynnwys prosesau atal a rheoli heintiau.

Dylai'r practis adolygu'r rhaglen sefydlu i gynnwys prosesau atal a rheoli heintiau.

Roedd y practis wedi penodi meddyg teulu cyflogedig yn ddiweddar ac roedd ganddo gofrestryddion practis cyffredinol a oedd yn lleihau'r risg o ran cadw staff. Pan fyddai meddygon locwm yn cael eu defnyddio, byddai'r practis yn ceisio defnyddio'r un unigolion er mwyn sicrhau parhad gofal. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pecyn i feddygon locwm ar gael ac nad oedd proses sefydlu safonol ar gyfer meddygon locwm na staff asiantaeth, pe baent yn cael eu defnyddio.

Dylai'r practis ystyried llunio pecyn i feddygon teulu locwm sy'n benodol ar gyfer y practis.

Gwnaethon edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a oedd yn cynnwys sawl bwlch mewn hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol, gan gynnwys hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, diogelu a diogelwch tân. Darparwyd tystiolaeth o hyfforddiant blynyddol cyfredol ar adfywio ar gyfer tua hanner y staff yn y practis. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Rhoddyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis. Roedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff. Er i'r staff gadarnhau eu bod wedi cael arfarniadau blynyddol, ni allai'r practis roi tystiolaeth i ni fod y rhain wedi cael eu dogfennu. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y rhain wedi cael eu cynnal ar ffurf sgwrs anffurfiol, yn hytrach na phroses wedi'i dogfennu.

Dylai'r practis ystyried rhoi proses ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol a'u dogfennu'n briodol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd polisi cwynion a gweithdrefn gwyno priodol ar waith yn y practis a oedd wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Er eu bod yn cyd-fynd i raddau helaeth â phroses 'Gweithio i Wella' y GIG, gwnaethom nodi mai polisi'r practis oedd cydnabod cwynion o fewn saith diwrnod gwaith yn hytrach na phum diwrnod gwaith fel sy'n ofynnol. Yn ogystal â hyn, nid oedd y weithdrefn gwyno na'r poster 'Gweithio i Wella' wedi'u harddangos yn yr ardal aros.

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y polisi cwynion yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru
- Arddangos copi o'r weithdrefn gwyno mewn ardal lle y gall cleifion ei weld yn glir
- Arddangos posteri Gweithio i Wella mewn ardal lle y gall cleifion eu gweld yn glir.

Gwnaethom edrych ar ffeil gwynion y practis a gwelsom fod y broses wedi'i dogfennu'n llawn a'i chymhwyso yn unol â'r amserlenni yn y polisi. Dywedwyd wrthym fod cwynion yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm a thrafodaethau un-i-un, a bod themâu a gwersi i'w dysgu yn cael eu nodi. Gwelsom dystiolaeth o gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r broses hon.

Gwelsom godau QR yn yr ardal aros a oedd yn dangos sut y gall cleifion roi adborth. Dim ond un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC a nododd fod staff y practis wedi gofyn iddo roi adborth ar ei brofiad o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn y byddent yn gwylbod sut i gwyno am wasanaeth gwael pe byddent am wneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn teimlo'n gyfforddus i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt, a bod polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn hapus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt i wella gwasanaethau, ond roedd hyn yn digwydd ar lafar. Nid oedd unrhyw broses ffurfiol ar waith. Gwnaethom drafod opsiynau ar gyfer cyflwyno proses i gofnodi awgrymiadau'r staff.

Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd cyfredol ar waith a oedd yn bodloni gofynion y canllawiau. Fodd bynnag, ni allai'r practis ddarparu unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn. Gwelsom fod y practis yn defnyddio gwasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel ei swyddog diogelu data. Roedd y gwasanaeth hwn yn ymdrin â cheisiadau anarferol am wybodaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau perthnasol. Ni welsom lawer o dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil cyfnodol. Roedd rheolwr y practis yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgor anableddau dysgu'r bwrdd iechyd lleol, a oedd yn archwilio sut i gyfathrebu'n well â'r grŵp cleifion hwn a'u gofalwyr. Roedd gwersi a ddysgwyd o adolygiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys digwyddiadau a chwynion, yn cael eu rhannu ar draws y practis drwy gyfarfodydd staff a negeseuon e-bost er mwyn gwneud gwelliannau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwnaethom adolygu'r prosesau sydd ar waith i nodi sut roedd y practis yn gweithio gyda thimau gofal iechyd ehangach a phartneriaid allanol i ddatblygu safbwynt system gyfan tuag at gyflawni canlyniadau effeithiol a oedd yn diwallu anghenion newidiol y gymuned.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gydberthynas waith effeithiol â thîm gwasanaethau cartref amlddisgyblaethol y bwrdd iechyd lleol i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion yn gallu parhau i gael gofal gartref, lle y gellir osgoi eu derbyn i'r ysbyty.

Roedd yn ymddangos bod y practis wedi meithrin cydberthynas agos â phractisau eraill yn y clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer ardal ehangach Rhondda.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd hylifau glanhau ym mhob un o doiledau'r practis y gallai cleifion gael gafael arnynt.	Roedd y cemegion glanhau hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch cleifion.	Gwnaethom godi'r mater hwn â'r uwch-reolwyr ar ddiwrnod yr arolygiad.	Cafodd yr eitemau eu symud ar unwaith a'u storio'n ddiogel.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa St Andrews

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd cofnodion hyfforddiant staff cyflawn a chydlynol ar gael i'w gweld. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o'r staff a gwelsom fylchau mewn hyfforddiant sylfaenol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu, atal a rheoli heintiau, a diogelwch tân. Dywedwyd wrthym nad oedd matrices hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio a gwelsom dystiolaeth	Rhaid i'r practis gymryd camau ar unwaith i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu hyfforddiant staff. Mae hyn yn cynnwys nodi gofynion hyfforddiant ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol, ystyried canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol, cyfrifoldebau a rolau unigol. Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023)	Trefnu matrices hyfforddiant er mwyn monitro hyfforddiant gorfodol pob aelod o staff Meddygfa St Andrews ar y pryd, gan gynnwys y meddygon - gweler y ddogfen atodedig. Sicrhau mynediad canolog i dystysgrifau hyfforddiant fel bod modd cael gafael arnynt yn hawdd a'u monitro, yn hytrach na'u bod yn cael eu cadw mewn manau gwahanol. Darparu tystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd hyd	Dr. John Boby Thomas - Uwch-bartner, Karen Jones - Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau ar 05/02/2026 Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

<p>rannol o hyfforddiant gorfodol yn ffolderi'r staff a ffeiliau polisi amrywiol. Dywedwyd wrthym fod tystiolaeth arall o hyfforddiant, gan gynnwys ar gyfer y meddygon teulu, yn cael ei chadw mewn cyfrifon hyfforddiant personol na fu modd i ni eu gweld yn ystod yr arolygiad.</p> <p>O ganlyniad, ni fu modd i ni gadarnhau bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i sicrhau diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr â'r feddygfa.</p>	<p>gorfodol a darparu tystiolaeth o hynny.</p> <p>Rhaid i'r practis roi systemau cadarn ar waith i fonitro, cofnodi a sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff, gan gynnwys hyfforddiant gloiywi.</p>		<p>yma ar 05/02/2026 - gweler y tystysgrifau hyfforddiant atodedig.</p> <p>Sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch tân, rheoli heintiau, diogelu, ac adfywio o leiaf. Mae'r sesiwn hyfforddi nesaf ar ddiogelu ar gyfer Cwm Taf yn cael ei gynnal ar 18/03/2026. Mae un aelod o'n staff ar absenoldeb mamolaeth.</p> <p>Bydd Hyrwyddwr Hyfforddiant y practis yn monitro'r matrices hyfforddiant bob dau fis ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a darparu tystiolaeth o hynny.</p>	<p>Wedi dechrau a bron wedi'i gwblhau heblaw ar gyfer y staff sydd ar wyliau blynyddol. I'w gwblhau erbyn 19/02/26. Dylid anfon tystiolaeth drwy e-bost at yr arolygydd.</p> <p>Mae'r gwaith monitro eisoes wedi dechrau ar 02/02/2026.</p> <p>01/04/2026</p>
--	---	--	--	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dr John Boby Thomas

Teitl swydd: Uwch-bartner

Dyddiad: 05/02/2026

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa St Andrews

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	<p>Dylai'r practis adolygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> sut y caiff gwybodaeth gofal iechyd ei darparu i gleifion gyda'r nod o'i gwneud yn fwy gweladwy a hygyrch ei gwefan er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. 	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Byddwn yn symud y sgriniau arddangos nad ydynt yn gweithio	Meddygon Teulu Partner	1 mis
			Bydd yr hysbysiadau'n cael eu hargraffu mewn lliw	Meddygon Teulu Partner	1 mis
			Byddwn yn diweddarau gwefan y practis	Rheolwr y Practis	6 mis
2.	Dylai'r practis sicrhau bod cleifion sy'n siarad wrth ddesg y dderbynfa yn gallu	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Yn	Bydd y practis yn sicrhau bod arwyddion clir yn nodi sut y	Rheolwr y Practis	3 mis

	allent siarad ag aelod o staff y dderbynfa heb i bobl eraill yn yr ardal aros i gleifion eu clywed.	gwneud hynny mewn ffordd sy'n cynnal eu preifatrwydd a'u cyfrinachedd.	Canolbwyntio ar yr Unigolyn	gellir gwneud hyn - fel arall byddwn yn cynghori cleifion i wneud galwad ffôn yn hytrach na chael trafodaeth wyneb yn wyneb		
3.	Nid oedd unrhyw hysbysiadau wedi'u harddangos yn hysbysebu'r gwasanaeth hebryngwyr i gleifion. Yn y cofnod a welsom ar gyfer un claf a oedd wedi cael archwiliad personol, nid oedd y cynnig o hebryngwr nac ymateb y claf wedi'u cofnodi.	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Y caiff y cynnig o hebryngwyr ei arddangos fel bod cleifion yn ymwybodol o'r gwasanaeth • Y caiff y cynnig o hebryngwr ac ymateb y claf eu cofnodi yn nodiadau cleifion, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol). 	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn Y Cyngor Meddygol Cyffredinol: Archwiliadau personol a hebryngwyr	Bydd y practis yn sicrhau bod arwyddion yn hysbysebu'r gwasanaeth hebryngwyr yn cael eu gosod ym mhob rhan o'r adeilad ac yn enwedig yn yr ystafelloedd ymgynghori. Caiff y staff clinigol eu hatgoffa i gofnodi bod hebryngwr wedi ei gynnig/gwrthod yn y nodiadau meddygol.	Rheolwr y Practis Uwch-bartner	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
4.	Ni allai'r practis ddarparu llwybr llywio gofal wedi'i	Dylai'r practis sicrhau bod llwybr llywio gofal wedi'i ddogfennu ar gael i'r staff.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Amserol	Caiff llwybrau eu datblygu gan y	Rheolwr y Practis/Pob aelod o'r staff	1 mis

	ddogfennu i ni a oedd yn rhoi dull cyson i'r staff ei ddilyn.			meddygon teulu a'r nyrsys. Cydgysylltu â phractisau cyfagos am y defnydd o lwybrau. Rhoi'r llwybrau ar waith i'r staff.		
5.	Dyweddodd tri o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi gallu cael apwyntiadau arferol pan oedd eu hangen arnynt.	Rydym yn argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Amserol	Mae'r practis wedi cynnal holiadur cleifion ar fynediad yn ddiweddar a bydd yn adolygu'r canlyniadau er mwyn gwella mynediad i gleifion ymhellach.	Rheolwr y Practis	6 mis
6.	Gwelsom nad oedd unrhyw daflenni gwybodaeth ysgrifenedig am y practis ar gael i gleifion heb fynediad digidol. Dywedwyd wrthym fod hyn hefyd wedi'i nodi yn ystod	Dylai fod gan y practis daflen wybodaeth ysgrifenedig i gleifion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth hefyd ar gael i gleifion nad oes ganddynt fynediad digidol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Teg	Bydd y practis yn sicrhau bod gwybodaeth am y practis ar gael ar-lein ac mewn taflenni.	Rheolwr y Practis	3 mis

	adolygiad blynyddol gan y bwrdd iechyd.					
7.	Gwelsom nad oedd y Cynnig Rhagweithiol i ddarparu triniaeth yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, ac nad oedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol ohono.	Rhaid i'r practis sicrhau y rhoddir gwybod i bob aelod o'r staff am y 'Cynnig Rhagweithiol' i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y caiff hyn ei hyrwyddo i gleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Bydd y practis yn sicrhau bod taflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y practis yn parhau i gynnig cyrsiau Cymraeg ac yn eu hannog i wisgo bathodynau neu laniardau i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
8.	Roedd toiled hygrych ar gael ond nid oedd yn cynnwys cortyn tynnu mewn argyfwng.	Dylai'r practis osod cortyn tynnu mewn argyfwng fel bod cleifion yn gallu galw am gymorth os oes angen.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg	Bydd y Meddygon Teulu Partner yn gosod cortyn tynnu mewn argyfwng.	Meddygon Teulu Partner	6 mis
9.	Roedd y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cydfynd â safonau'r Comisiwn Ansawdd	Rhaid i'r practis adolygu ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r safonau i Gymru ac yn	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg	Bydd y practis yn sicrhau bod holl bolisiau'r practis yn cynnwys prosesau rheoli fersiynau.	Rheolwr y Practis	3 mis

	Gofal yn Lloegr yn hytrach na'r safonau i Gymru, ac nid oedd yn cynnwys proses rheoli fersiynau.	cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.		Bydd Rheolwr y Practis yn sicrhau bod y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cyd-fynd â'r safonau i Gymru.		
10.	Dim ond yn rhannol roedd gollyngiad yn y to wedi'i atgyweirio ac nid oedd y carpedi yn y swyddfeydd wedi'u gosod yn iawn, gyda rhannau wedi codi ac ymylon wedi'u tapio, a oedd yn creu peryglon baglu posibl i'r staff.	Rhaid i'r practis drafod â pherchennog yr adeilad yr angen i atgyweirio'r to a'r carpedi o fewn cyfnod rhesymol o amser er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y staff sy'n defnyddio'r ardaloedd hyn.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	Bydd y Meddygon Teulu Partner yn cysylltu â'r landlordiaid i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i atgyweirio'r to, ac ar ôl hynny caiff carpedi newydd eu gosod a chaiff gwaith addurno ei wneud.	Meddygon Teulu Partner	6 mis
11.	Roedd angen cwblhau cynllun parhad busnes y practis er mwyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau a manylion cyswllt mewn argyfwng perthnasol ar gael pe bai sefyllfa eithafol yn codi. Roedd hefyd	Dylai'r practis gwblhau ei gynllun parhad busnes er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer y practis ac yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	Bydd y cynllun parhad busnes yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau a manylion cyswllt mewn argyfwng perthnasol ar gael pe bai sefyllfa eithafol yn codi ac er mwyn	Meddygon Teulu Partner/Rheolwr y Practis	2 fis

	yn cynnwys cyfeiriad at y Comisiwn Ansawdd Gofal ac nid oedd yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.			sicrhau ei fod yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol.		
12.	Mewn un feddygfa, gwelsom fin offer miniog heb ei gloi ar gornel y ddesg wrth ymyl sedd y claf ac o fewn cyrraedd hawdd i blant.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff biniau offer miniog eu storio'n ddiogel neu eu lleoli'n briodol, fel na all cleifion na phlant gael gafael arnynt.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Bydd nyrsys y practis yn cynnal gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau nad yw'r blychau offer miniog o fewn cyrraedd plant.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
13.	Roedd papur toiled a thywelion papur wedi'u gadael ar y sestonau yn hytrach nag yn y dosbarthwyr a oedd wedi'u gosod, a oedd yn golygu y gallent gael eu halogi.	Dylai'r practis sicrhau bod papur toiled a thywelion papur yn cael eu rhoi yn y dosbarthwyr priodol i'w hatal rhag cael eu halogi.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Bydd y Meddygon Teulu Partner yn prynu dosbarthwyr newydd ac yn eu gosod ym mhob toiled	Meddygon Teulu Partner	1 mis
14.	Roedd y materion a nodwyd gennym yn cynnwys biniau wedi torri ac arwynebau anniben yn y meddygfeydd ac	Dylai'r practis gymryd camau i sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Y caiff y biniau sydd wedi'u difrodi yn y meddygfeydd eu hatgyweirio neu y 	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Mae'r practis wedi prynu biniau newydd. Bydd llenni preifatrwydd newydd yn cael eu prynu yn lle'r hen rai.	Meddygon Teulu Partner	1 mis

	<p>roedd rhai cadeiriau wedi'u gorchuddio â ffabrig na ellir ei sychu. Roedd dyddiad 2017 wedi'i nodi ar un o'r llenni preifatrwydd a welsom.</p>	<p>caiff biniau newydd eu gosod yn eu lle, yn ddelfrydol â systemau y gellir eu gweithredu â throed</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y caiff unrhyw annibendod ei symud oddi ar yr arwynebau yn y meddygfeydd • Y caiff y llenni preifatrwydd eu newid neu eu golchi ar adegau priodol • Yr ymdrinnir â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r archwiliad. 		<p>Mae'r holl arwynebau anniben wedi cael eu clirio.</p> <p>Mae'r meddygon teulu partner yn prynu cadeiriau y gellir eu sychu.</p>		
15.	<p>Roedd polisi presgripsiynu ar waith yn y practis, a oedd yn cyfeirio at y gofrestr padiau presgripsiwn. Fodd bynnag, nid oedd y</p>	<p>Rhaid i'r practis roi systemau priodol ar waith i'w alluogi i reoli padiau presgripsiwn a storio a chofnodi presgripsiynau ar gyfer ymweliadau cartref yn effeithiol, a'u cynnal.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel</p>	<p>Bydd y practis yn cyflwyno cofrestr padiau presgripsiwn ac yn sicrhau bod rheolaethau ar waith ar gyfer</p>	<p>Rheolwr y Practis/Meddygon Teulu Partner</p>	<p>1 wythnos</p>

	polisi hwn wedi'i roi ar waith ar adeg yr arolygiad. Gwelsom hefyd nad oedd rheolaethau ar waith ar gyfer storio a chofnodi presgripsiynau â llaw ar gyfer ymweliadau cartref.			presgripsiynau a roddir gartref.		
16.	Dywedwyd wrthym fod nyrsys y practis yn cymryd eu tro i wirio'r cyfarpar brys yn fisol, yn hytrach nag yn wythnosol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi, a allai ei gwneud hi'n anodd cael gafael arnynt mewn argyfwng ac, ar wahân i'r silindrau ocsigen, nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos ble roedd y	Dylai'r practis sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Y caiff y cyfarpar brys ei wirio'n wythnosol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio. • Y caiff arwyddion priodol eu gosod i ddangos ble mae'r cyfarpar brys yn cael ei gadw • Bod y staff bob amser yn gallu cael gafael yn hawdd ar y cyffuriau brys mewn argyfwng. 	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Bydd y cyfarpar brys yn cael ei wirio'n wythnosol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio. Bydd arwyddion i ddangos ble mae'r cyffuriau brys yn cael eu cadw yn cael eu trefnu. Mae adrenalin brys eisoes ar gael yn hawdd i'r staff mewn argyfwng ym mhob ystafell.	Nyrsys y Practis	Wedi'i gwblhau

	cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cadw.			Mae rhai cyffuriau yn cael eu cadw dan glo ac mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch. Ychydig flynyddoedd yn ôl, gwnaeth claf faricedio ei hun yn ein hystafell drin a phe na bai'r cwpwrdd cyffuriau brys wedi'i gloi, gallai fod wedi ei agor yn hawdd.		
17.	Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ddadansoddiad yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd i gymharu cyfraddau atgyfeirio â chyfraddau practisau eraill yn yr ardal.	Dylai'r practis ystyried adolygu cyfraddau atgyfeirio er mwyn helpu i nodi themâu a thueddiadau allweddol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithiol	Bydd y practis yn gofyn i bractisau cyfagos eraill sut maent yn dadansoddi eu cyfraddau atgyfeirio.	Rheolwr y Practis	6 mis
18.	Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff yn cael sesiynau goruchwyllo clinigol ffurfiol.	Dylai'r practis fabwysiadu proses ffurfiol ar gyfer cynnal sesiynau goruchwyllo clinigol a ffurfiol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Y Gweithlu	Bydd y practis yn trefnu archwiliadau ac arfarniadau blynyddol i ddangos tystiolaeth ffurfiol	Rheolwr y Practis Uwch-bartner	6 mis

		dangos tystiolaeth addas o'r broses honno.		bod y staff nyrsio yn cael eu goruchwyllo.		
19.	Nid oedd nifer o'r polisiâu yn cynnwys unrhyw broses rheoli fersiynau na dyddiadau adolygu. Nid oedd polisiâu eraill yn ddigon manwl ac roedd rhai yn anghyflawn.	<p>Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu a'r person sy'n gyfrifol am adolygu'r weithdrefn • Bod pob polisi wedi'i gwblhau ac yn cynnwys digon o fanylion i gadarnhau egwyddorion, cwmpas ac atebolrwydd y polisi hwnnw • Bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall polisiâu perthnasol y practis i sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r practis 	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Arweinyddiaeth	<p>Bydd y practis yn sicrhau y caiff prosesau rheoli fersiynau, dyddiadau adolygu ac ati eu diweddarau ym mhob un o bolisiau'r practis.</p> <p>Bydd Rheolwr y Practis yn trafod â'r partneriaid a ddylid prynu mynediad i Practice Index er mwyn helpu Rheolwr y Practis i gynnal safonau uchel mewn perthynas â pholisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig.</p>	Rheolwr y Practis	6 mis

		Ei fod yn rhoi tystiolaeth i AGIC pan fydd wedi gwneud hynny.				
20.	Nid oedd y rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff yn cynnwys prosesau atal a rheoli heintiau.	Dylai'r practis adolygu'r rhaglen sefydlu i gynnwys prosesau atal a rheoli heintiau.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Bydd y practis yn adolygu ei raglen sefydlu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys prosesau atal a rheoli heintiau	Rheolwr y Practis	6 mis
21.	Gwelsom nad oedd pecyn i feddygon locwm ar gael na phroses sefydlu safonol ar gyfer meddygon locwm na staff asiantaeth, pe baent yn cael eu defnyddio.	Dylai'r practis ystyried llunio pecyn i feddygon teulu locwm sy'n benodol ar gyfer y practis.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Bydd y practis yn llunio pecyn i feddygon teulu locwm sy'n benodol ar gyfer y practis.	Meddygon Teulu Partner/Rheolwr y Practis	6 mis
22.	Er i'r staff gadarnhau eu bod yn cael arfarniadau blynyddol, cadarnhaodd rheolwr y practis eu bod wedi cael eu cynnal ar ffurf sgwrs anffurfiol, yn	Dylai'r practis ystyried rhoi proses ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol a'u dogfennu'n briodol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Bydd y practis yn rhoi proses ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol ac yn eu dogfennu'n briodol	Rheolwr y Practis	6 mis

	hytrach na phroses wedi'i dogfennu.					
23.	<p>Er bod y polisi cwynion yn cyd-fynd i raddau helaeth â phroses 'Gweithio i Wella' y GIG, gwnaethom nodi mai polisi'r practis oedd cydnabod cwynion o fewn saith diwrnod gwaith yn hytrach na phum diwrnod gwaith fel sy'n ofynnol.</p> <p>Nid oedd y weithdrefn gwyno na'r poster 'Gweithio i Wella' wedi'u harddangos yn yr ardal aros.</p>	<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y polisi cwynion yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru • Arddangos copi o'r weithdrefn gwyno mewn ardal lle y gall cleifion ei weld yn glir • Arddangos posteri Gweithio i Wella mewn ardal lle y gall cleifion eu gweld yn glir. 	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diwylliant	Bydd y practis yn cysoni ei bolisi cwynion â phroses GIG Cymru ac yn arddangos y broses yn ogystal â'r posteri Gweithio i Wella yn yr ardaloedd i gleifion.	Rheolwr y Practis	2 fis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr. John Boby Thomas

Teitl swydd: Uwch-bartner

Dyddiad: 13/04/2026